



# Apeliadau o dan adran 71 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

## *Canllaw I Apelyddion (Gwrychoedd Uchel)*

*Mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno'r gweithdrefnau ar gyfer apeliadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 71(1) a 71(3) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn erbyn hysbysiadau adfer a phenderfyniadau eraill awdurdodau lleol.*

*Dim ond i apeliadau yng Nghymru y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol.*

*Dim ond y llysoedd a all ddarparu dehongliad awdurdodol o'r gyfraith, felly nid oes i'r canllawiau hyn unrhyw rym cyfreithiol.*

## Cynnwys:

1.	Cyflwyniad
2.	A oes gennyf hawl i apelio?
3.	Sut a phryd y dylwn i apelio?
4.	Pwy sy'n chwarae rhan yn y broses?
5.	Faint y bydd yn ei gostio?
6.	Sut y penderfynir ar fy apêl?
7.	Beth fydd yn digwydd pan fydd fy apêl yn dod i law?
8.	Beth fydd yn digwydd os bydd mwy nag un parti yn apelio yn erbyn yr un penderfyniad gan Gyngor?
9.	What happens if I decide to withdraw my appeal?
10.	Gweithdrefnau - (a) Cynrychioliadau Ysgrifenedig - (b) Gwrandawriad
11.	Pwy gaiff wybod am y penderfyniad?
12.	Y penderfyniad
13.	Sut y gallaf gwyno os na fyddaf yn fodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'm hapêl?
14.	Sut y gallaf herio'r penderfyniad?
15.	Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru - pwy ydym ni a'r hyn a wnawn
16.	Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

## 1. Cyflwyniad

Mae rhan wyth o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (y Ddeddf) yn rhoi pwerau i Gynghorau ymdrin â chwynion ynghylch gwrychoedd uchel, gwneud penderfyniadau a dyroddi hysbysiadau adfer. Rhydd adran 71 yr hawl i bobl nad ydynt yn fodlon â phenderfyniad cyngor wneud apêl i Weinidogion Cymru. Mae'r Ddeddf ar gael yn y llyfrgelloedd cyhoeddus mwyaf. Mae hefyd ar gael ar y Rhyngrwyd yn: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/38/contents>

Yng Nghymru yr Arolygiaeth Gynllunio (*gweler adran 15: Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) - pwy ydym ni a'r hyn a wnawn*) sy'n ymdrin â'r apeliadau hyn.

Cyhoeddir y canllawiau hyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio ac maent yn egluro sut a phryd y dylid gwneud apêl, a sut y byddwn yn ymdrin â hi.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllaw cynhwysfawr, '*High hedges complaints system*' sydd ar gael yn y llyfrgelloedd mwyaf neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dylech fod yn ymwybodol y bydd yr Arolygydd sy'n ymdrin â'ch apêl yn ystyried y cyngor a roddir yn y Canllawiau ar System Gwyno Gwrychoedd Uchel. Dyma'r canllawiau a ddefnyddir gan Gynghorau i benderfynu ar gwyn ynghylch gwrych uchel, neu i benderfynu a ddylid tynnu hysbysiad adfer yn ôl neu ei ddiwygio.

Cynhwysir y rheoliadau ar gyfer gweithdrefnau apelio yn *Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Apelau) (Cymru) 2004 (OS 2004 Rhif 3240 (Cy.282))*. Mae'r rheoliadau ar gael ar y rhyngrwyd yn: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/3240/contents/made>.

## 2. A oes gennyf hawl i apelio?

Dim ond yn erbyn penderfyniad neu hysbysiad adfer Cyngor mewn ymateb i gwyn ffurfiol ynglŷn â gwrych uchel y gellir gwneud apêl i Weinidogion Cymru.

Cewch wneud apêl os mai chi yw'r unigolyn a wnaeth gwyn i'r Cyngor yn y lle cyntaf, neu chi yw perchennog neu ddeiliad y tir lle y lleolir y gwrych.

Cewch apelio hefyd os ydych wedi olynu un o'r bobl hyn. Er enghraifft, gallai perchennog y gwrych newid os caiff yr eiddo ei werthu, neu os ydych wedi symud i mewn i eiddo a feddiannwyd gynt gan yr unigolyn a wnaeth gwyn i'r Cyngor yn wreiddiol. Pan fydd hyn yn digwydd caiff yr apêl fynd rhagddi yn enw'r perchennog newydd. Byddwn yn sicrhau bod papurau'r apêl ar gael i unrhyw barti newydd a'i fod yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau os yw'n dymuno gwneud hynny.

### Sail yr apêl

**Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i ddyroddi hysbysiad adfer, yn ei gwneud yn ofynnol i leihau maint gwrych, os yw'r canlynol yn gymwys**

Chi yw'r unigolyn a wnaeth gwyn i'r Cyngor ynglŷn â'r gwrych; ac

- ni chredwch fod y gwaith gofynnol yn mynd yn ddigon pell.

Chi sy'n berchen ar y tir lle y lleolir y gwrych neu chi yw deiliad y tir hwnnw; ac

- ni chredwch y dylid bod wedi dyroddi unrhyw hysbysiad; neu
- credwch fod y gwaith gofynnol yn mynd yn rhy bell; neu
- ni chredwch fod y Cyngor wedi rhoi digon o amser i chi gwblhau'r gwaith gofynnol.

### **Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i beidio â dyroddi hysbysiad adfer os yw'r canlynol yn gymwys**

Chi yw'r unigolyn a wnaeth gŵyn i'r Cyngor ynglŷn â'r gwrych; a

- chredwch fod y Cyngor wedi gwneud y penderfyniad anghywir wrth ddod i'r casgliad nad yw'r gwrych yn cael effaith anffafriol arnoch; neu
- ar ôl cytuno bod y gwrych yn peri problemau, credwch y dylai'r cyngor fod wedi dyroddi hysbysiad adfer i leihau maint y gwrych.

### **Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i dynnu hysbysiad adfer yn ôl os yw'r canlynol yn gymwys**

Chi yw'r unigolyn a wnaeth gŵyn i'r Cyngor ynglŷn â'r gwrych; ac

- nid oeddech yn cytuno â thynnu'r hysbysiad yn ôl **ac** nid yw'r Cyngor wedi dyroddi hysbysiad adfer newydd; ac
- ni chredwch y bu unrhyw newid perthnasol i'r amgylchiadau ers dyroddi'r hysbysiad yn wreiddiol.

### **Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i ddiystyru neu lacio rhai o'r gofynion yn yr hysbysiad adfer os yw'r canlynol yn gymwys**

Chi yw'r unigolyn a wnaeth gŵyn i'r Cyngor ynglŷn â'r gwrych ac nid oeddech yn cytuno â'r newidiadau i'r hysbysiad; ac

- ni chredwch y bu unrhyw newid perthnasol i'r amgylchiadau ers dyroddi'r hysbysiad yn wreiddiol; neu
- ni chredwch fod y gwaith gofynnol ar y gwrych yn yr hysbysiad diwygiedig yn mynd yn ddigon pell.

Chi sy'n berchen ar y tir lle y lleolir y gwrych neu chi yw deiliad y tir hwnnw ac nid oeddech yn cytuno â'r newidiadau i'r hysbysiad; a

- chredwch fod y gwaith gofynnol ar y gwrych yn mynd yn rhy bell.

Tra penderfynir ar eich apêl ni chaiff penderfyniad neu hysbysiad adfer perthnasol y Cyngor ei atal.

**Ni** cheir apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i wrthod cwyn ynglŷn â gwrych uchel neu wrthod cais i dynnu hysbysiad adfer yn ôl neu ei ddiwygio. Os gwrthodir cwyn neu gais yn y fath fodd ac ni chredwch fod y Cyngor wedi gweithredu'n unol â'r gyfraith neu heb wneud y penderfyniad yn y ffordd gywir, gallwch gyfeirio'r mater at swyddog cwynion y Cyngor ei hun neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Fel arall, gallwch herio'r penderfyniad drwy adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys (*gweler adran 14 o'r canllawiau hyn*).

### **3. Sut a phryd y dylwn i apelio?**

Rhaid i chi wneud eich apêl ar ffurflen apêl Gwrychoedd Uchel sydd ar gael gan PEDW. Gallwch gael y ffurflen hon o'n gwefan: [https://llyw.cymru/ffurflen-apel-gwrychoedd-uchel?\\_ga=2.98993822.1804413436.1649074265-1065507622.1633331051](https://llyw.cymru/ffurflen-apel-gwrychoedd-uchel?_ga=2.98993822.1804413436.1649074265-1065507622.1633331051).

Hefyd gallwch ei chael drwy ein ffonio neu ysgrifennu atom (*gweler adran 15 o'r canllawiau hyn*). Os byddwch yn ymweld â gwefan PEDW, gallwch lwytho'r ffurflen apêl i lawr a'i dychwelyd atom yn electronig dros yr e-bost: [PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru](mailto:PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru) or you can print it out and post it.

Pan fo'n bosibl byddai'n well gennym gael apeliadau ar ffurf electronig, ond peidiwch â phoeni os na allwch wneud hyn. Ni fydd y ffordd yr anfonir apêl, hynny yw yn electronig neu ar bapur, yn effeithio ar ei siawns o lwyddo.

Pan gyflwynir yr apêl yn electronig nid oes angen i chi ei chwblhau gyda llofnod electronig. Os byddwch yn anfon y ffurflen yn electronig ond yn postio dogfennau ategol, dylech gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad ar y papurau er mwyn i ni allu cysylltu'r ffurflen â'ch dogfennau eraill. Os byddwch yn cyflwyno apêl yn electronig peidiwch ag anfon copi ychwanegol ar bapur.

Pan gyflwynir eich apêl i ni **rhaid** i chi hefyd gyflwyno copi o benderfyniad y Cyngor gyda hi a, lle y dyroddwyd un, yr hysbysiad adfer. **Rhaid** i chi hefyd wneud copi o'r ffurflen ynghyd â dogfennau ategol i'r Cyngor rydych yn apelio yn erbyn ei benderfyniad. Dylech gadw copi ychwanegol o'ch ffurflen apêl a dogfennau ategol er mwyn cyfeirio atynt eich hun.

Pan gwblheir y ffurflen apêl rhaid i chi esbonio pam rydych yn anghytuno â phenderfyniad y Cyngor yn llawn. I wneud hyn, bydd angen i chi fynd drwy ei resymau dros y penderfyniad, a fydd yn ei lythyr, ac esbonio pam rydych yn anghytuno. Mae hyn yn bwysig iawn oherwydd caiff eich ffurflen apêl ei thrin fel eich datganiad achos ac ni fyddwch yn gallu ychwanegu at eich rhesymau yn ddiweddarach. Yr unig eithriad i hyn fydd os byddwn ni neu'r Arolygydd yn penderfynu nad yw'r dogfennau yn y ffeil yn gyflawn a bod angen rhagor o wybodaeth. Rhaid i unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani gael ei darparu cyn y terfyn amser a bennwyd gennym ac anfonir copi at yr holl bartïon eraill.

Ar wahân i benderfyniad y Cyngor a'r hysbysiad adfer, nid oes angen i chi gyflwyno'r dogfennau sydd gan y Cyngor eisoes oherwydd cânt eu hanfon atom yn ddiweddarach (*gweler adran 7 o'r canllawiau hyn*). Fodd bynnag, os hoffech wneud pwynt a ddangosir orau drwy gynllun neu ffotograff, dylech anfon copiâu gyda'r ffurflen apêl.

Rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio gael y ffurflen apêl wedi'i chwblhau ac unrhyw ddogfennau ategol o fewn 28 diwrnod

- i'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad adfer; neu
- y dyddiad y bydd y Cyngor yn hysbysu'r partïon ei fod wedi penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r gwrych; neu
- y dyddiad y bydd y Cyngor yn hysbysu'r partïon ei fod wedi penderfynu tynnu hysbysiad adfer yn ôl neu hepgor neu lacio'i ofynion.

Os na fyddwch yn deall y rhesymeg dros benderfyniad y Cyngor dylech ofyn iddo ei egluro cyn penderfynu apelio yn ei erbyn ai peidio.

#### 4. Pwy sy'n chwarae rhan yn y broses?

Y partïon mewn apêl sy'n gysylltiedig â gwrych uchel yw:

- yr apelydd;
- y Cyngor; a
- phob unigolyn, ar wahân i'r apelydd sydd:
  - yn achwynydd neu
  - yn berchen ar y tir lle y lleolir y gwrych neu'n ddeiliad y tir hwnnw.

Nid yw'r darpariaethau yn y rheoliadau yn galluogi unrhyw un arall i fod yn rhan o'r apêl ar ôl ei chyflwyno'n ffurfiol. Nid yw sefydliadau na phobl eraill a wnaeth gynrychioliadau i'r Cyngor ynghylch y penderfyniad yn chwarae rhan uniongyrchol yn y broses apelio. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn anfon ei sylwadau atom a bydd yr Arolygydd yn eu hystyried wrth wneud y penderfyniad.

Dylech gofio y gallai eich cymydog hefyd apelio yn erbyn yr un penderfyniad - ond am resymau croes. Er enghraifft, gallai'r unigolyn a wnaeth y gŵyn i'r Cyngor apelio yn erbyn hysbysiad adfer am ei fod o'r farn nad yw'n ddigon llym. Ar y llaw arall, gallai perchennog y gwrych apelio yn erbyn yr un hysbysiad am ei fod o'r farn na ddylai'r gwrych gael ei leihau o gwbl. Mae'n bwysig eich bod chi a'r prif barti arall yn yr anghydfod yn parhau i gyfathrebu ar ôl i'r apêl gael ei chyflwyno. Y rheswm dros hyn yw y gallech gytuno ar ateb sy'n wahanol i'r hyn a nodwyd yn hysbysiad adfer y Cyngor. Os gwnewch hynny, cewch gyflwyno cais ar y cyd i'r Cyngor i hepgor neu lacio gofynion yr hysbysiad ac yna dynnu'r apêl yn ôl.

#### 5. Faint y bydd yn ei gostio?

Nid oes angen i chi dalu am wneud apêl ond bydd yn rhaid i chi dalu eich costau eich hun. Mae hyn yn golygu os byddwch yn cyflogi cynghorydd proffesiynol (e.e. cyfreithiwr) i'ch helpu i wneud eich apêl, bydd yn rhaid i chi dalu am ei wasanaethau. Er nad oes angen i chi dalu am gyflwyno apeliadau, maent yn ddrud i'w gweinyddu ac yn mynd ag amser pawb felly dylid ystyried gwneud hynny'n ofalus.

#### 6. Sut y penderfynir ar fy apêl?

Mae apeliadau Gwrychoedd Uchel yr ymdrinnir â hwy gan PEDW yn dilyn dau fath o weithdrefn:

- Cynrychioliadau ysgrifenedig; a
- Gwrandawriad.

Dylech feddwl yn ofalus am y math mwyaf addas o weithdrefn ar gyfer eich apêl. Er bod y terfynau amser ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yn debyg iawn, mae'r digwyddiadau apêl eu hunain yn wahanol iawn. Mae hyn yn golygu y bydd apêl y penderfynir arni drwy ddilyn y weithdrefn ar gyfer gwrandawriad fel arfer yn arwain at dreulio mwy o amser a gwario mwy o arian yn ei pharatoi.

## **Bydd angen i chi nodi eich dewis weithdrefn ar y ffurflen apêl, fodd bynnag, yr PEDW fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.**

Pan fyddwch yn penderfynu pa weithdrefn i'w defnyddio, dylech ystyried y pwyntiau canlynol:

- Bydd canlyniad yr apêl bob amser yn dibynnu ar ei rhinweddau
- Mae'r weithdrefn ysgrifenedig fel arfer yn gynt ac yn rhatach

Os bydd pawb yn gytûn, a bod yr apêl yn addas, bydd yr Arolygydd yn penderfynu arni ar sail cyfnewid gwybodaeth yn ysgrifenedig. Os na fyddwch chi, y Cyngor na ninnau yn cytuno â'r weithdrefn ysgrifenedig, bydd gwrandawriad yn cael ei drefnu. **Pa weithdrefn bynnag y penderfynwn arni, bydd yr Arolygydd fel arfer yn ymweld â'r safle cyn gwneud penderfyniad ar yr apêl.** Y weithdrefn ysgrifenedig sydd orau i gael penderfyniad cyn gynted â phosibl. Mae'r rhan fwyaf o bobl ond yn gofyn am wrandawriad os byddant o'r farn bod hyn yn gwbl angenrheidiol.

### **7. Beth fydd yn digwydd pan fydd fy apêl yn dod i law?**

Pan fyddwn yn cael eich apêl byddwn yn sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn gywir, eich bod wedi darparu'r dogfennau gofynnol i'n galluogi i fwrw ati, a'i bod wedi'i hanfon o fewn y terfyn amser statudol. Byddwn yn ysgrifennu atoch i gydnabod ein bod wedi cael eich apêl. Pan fydd y Cyngor yn cael ei gopi o'r ffurflen apêl, mae'n ofynnol iddo roi enw a chyfeiriad pawb arall, ar wahân i chi, sy'n bartïon yn yr apêl i ni. Mae'r partïon eraill hyn yn cynnwys pawb sydd â hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor. Nid ydynt yn cynnwys pobl eraill a allai fod wedi cyflwyno sylwadau i'r Cyngor ar yr achos - megis cymdogion eraill neu gymdeithasau amwynder lleol. Bydd y cyngor hefyd yn nodi a yw am i'r apêl gael ei phenderfynu drwy gyfnewid cynrychioliadau ysgrifenedig neu ar ôl cynnal gwrandawriad. 'Gwybodaeth ragarweiniol' yw'r wybodaeth a roddir gan y cyngor. Ni all yr amserlen ar gyfer yr apêl ddechrau hyd nes y daw i law.

### **8. Beth fydd yn digwydd os bydd mwy nag un parti yn apelio yn erbyn yr un penderfyniad gan Gyngor?**

Os byddwn yn cael dwy neu fwy o apeliadau yn erbyn un hysbysiad adfer neu benderfyniad byddwn yn cysylltu'r apeliadau er mwyn sicrhau mai'r un Arolygydd sy'n ymdrin â phob un. Os felly, gall yr Arolygydd ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd a chyhoeddi penderfyniad ar y cyd neu, os yw'n briodol, gellir cyhoeddi penderfyniadau a dyroddi hysbysiadau adfer unigol.

### **9. Beth fydd yn digwydd os penderfynaf dynnu fy apêl yn ôl?**

Gallwch dynnu eich apêl yn ôl unrhyw bryd. Os byddwch yn penderfynu tynnu eich apêl yn ôl rhaid i chi gadarnhau hyn yn ysgrifenedig. Yna byddwn yn ysgrifennu at y partïon eraill yn yr apêl i'w hysbysu na fyddwn yn cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r apêl. Yn yr amgylchiadau hyn bydd penderfyniad gwreiddiol y Cyngor yn parhau a bydd unrhyw hysbysiad adfer, neu unrhyw achos o hepgor neu lacio ei ofynion yn dod i rym o'r dyddiad y tynnir yr apêl yn ôl (neu unrhyw ddyddiad diweddarach a nodir yn yr hysbysiad).

### **10. Gweithdrefnau**

Canllawiau ar wrychoedd uchel i apelyddion PEDW 04.2022

## (a) Cynrychioliadau Ysgrifenedig

### **Dyddiad dechrau**

Pan fyddwn wedi cael ffurflen apêl wedi'i chwblhau'n gywir, yr holl ddogfennau perthnasol, a'r wybodaeth ragarweiniol fel y nodwyd yn flaenorol byddwn yn eich hysbysu chi a'r partïon o ddyddiad dechrau ffurfiol yr apêl. Penderfynir ar yr holl gamau gweithdrefnol eraill o'r dyddiad hwn.

Byddwn yn eich hysbysu chi a'r partïon o gyfeirnod yr apêl a'r weithdrefn i'w dilyn. Byddwch hefyd yn cael manylion cyswllt y swyddog a fydd yn ymdrin â'r achos a dylid anfon yr holl ohebiaeth ato.

### **Rhaid i CHI wneud y canlynol:**

O fewn **pythefnos** i'r dyddiad dechrau dylech gael holiadur wedi'i gwblhau oddi wrth y cyngor yn uniongyrchol. Os na fyddwch wedi cael copi, dylech gysylltu â'r Cyngor yn uniongyrchol a gofyn am gopi.

O fewn **chwe wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i chi sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw gynrychioliadau pellach, sy'n ychwanegu at y ffurflen apêl wedi'i chwblhau a dogfennau cefndir a ddarparwyd gennych eisoes.

Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfyn amser hwn byddwn yn anfon copi o'ch cynrychioliadau at y prif bartïon eraill, ac yn anfon copi o ddatganiadau eraill y prif bartïon ynghyd ag unrhyw gynrychioliadau pellach a gafwyd gan bobl â diddordeb atoch chi.

O fewn **naw wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i chi sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw sylwadau terfynol yr hoffech eu gwneud ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gan y prif bartïon eraill yn yr apêl, ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a anfonwyd gan bobl â diddordeb.

Rhaid i'R CYNGOR wneud y canlynol

O fewn **pythefnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i'r Cyngor:

- hysbysu pobl â diddordeb yn yr apêl (hynny yw, pawb - ar wahân i'r prif bartïon - a wnaeth cynrychioliadau i'r Cyngor am y penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef). Rhaid iddo gynnwys y canlynol:
- enw'r apelydd a chyfeiriad y tir lle y lleolir y gwrych;
- manylion yr apêl a'r rhesymau dros ei gwneud;
- cadarnhau'r weithdrefn a ddefnyddir i benderfynu'r apêl (cynrychioliadau ysgrifenedig neu wrandawriad);
- datganiad yn nodi y caiff yr holl gynrychioliadau a gyflwynwyd mewn perthynas â phenderfyniad gwreiddiol y Cyngor eu hanfon i'r PEDW ac y caiff copïau eu hanfon at y prif bartïon eraill yn yr apêl;
- datganiad yn nodi y caiff cynrychioliadau o'r fath eu hystyried wrth benderfynu'r apêl oni fydd yr unigolyn â'u gwnaeth yn cysylltu â'r PEDW o fewn chew [6] wythnos i'r dyddiad dechrau i'w hysbysu ei fod am eu tynnu yn ôl;



- gwahoddiad i gyflwyno cynrychioliadau ychwanegol i'r PEDW chwe [6] wythnos ar ôl y dyddiad dechrau fan bellaf, a fydd yn anfon copïau at y prif bartïon yn yr apêl;
- manylion cyswllt PEDW, gan gynnwys unrhyw gyfeirnod ar gyfer yr apêl i'w ddyfynnu mewn gohebiaeth;
- cyflwyno'r holiadur wedi'i gwblhau, ynghyd â phapurau cefndir sy'n berthnasol i'r apêl, i ni o fewn pythefnos ac anfon copïau atoch chi a'r prif bartïon eraill;
- nodi a yw'n bwriadu cyflwyno unrhyw ddatganiad pellach i egluro'r rhesymau dros ei benderfyniad.

O fewn **chwe wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i'r Cyngor sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw ddatganiad pellach, sy'n ychwanegu at yr holiadur a'r papurau cefndir. Byddwn yn anfon copïau atoch chi a'r prif bartïon eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

O fewn **naw wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i'r Cyngor sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw sylwadau terfynol ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gennych a'r prif bartïon eraill ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a anfonwyd gan bobl â diddordeb.

### **Rhaid i bob arall sy'n barti yn yr apêl (ar wahân i'r apelydd a'r Cyngor) wneud y canlynol**

O fewn **chwe wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i'r prif bartïon eraill yn yr apêl (hynny yw, pawb - ar wahân i chi - sy'n achwynydd neu'n berchen ar y tir lle y lleolir y gwrych neu'n ddeiliad y tir hwnnw) sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw gynrychioliadau sy'n ychwanegu at y dogfennau a ddarparwyd gennych chi a'r Cyngor eisoes. Byddwn yn anfon copi atoch chi a'r partïon eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfyn amser.

O fewn **naw wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i'r partïon sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw sylwadau terfynol ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gan y partïon eraill yn yr apêl, ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a wnaed gan bobl â diddordeb.

### **Rôl pobl â diddordeb**

Caiff unrhyw un a wnaeth gynrychioliadau am y gŵyn sy'n destun yr apêl ei hysbysu o'r apêl gan y Cyngor. Caiff ei sylwadau gwreiddiol eu hanfon atom yn awtomatig gan y cyngor a byddwn yn anfon copi ohonynt atoch chi a'r partïon eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfyn amser.

Dylai ein hysbysu os nad yw am i'w sylwadau gwreiddiol gael eu hystyried wrth benderfynu'r apêl. Fel arall, gall gyflwyno cynrychioliadau pellach am yr apêl i ni. Rhaid i ni gael ei sylwadau o fewn **chwe wythnos** i'r dyddiad dechrau.

Byddwn yn anfon copi o'r cynrychioliadau pellach hyn atoch chi a'r partïon eraill a rhaid i ni gael sylwadau o fewn **naw wythnos** i'r dyddiad dechrau.

## Yr Ymweliad â'r Safle

Ar ôl cyfnewid cynrychioliadau ysgrifenedig, byddwn yn trefnu bod Arolygydd yn ymweld â safle'r gwrych. Yr Arolygydd, sy'n ddiuedd, sy'n gyfrifol am benderfynu'r apêl.

Ni cheir trafod rhinweddau'r apêl yn ystod yr ymweliad â'r safle. Fodd bynnag, fel arfer bydd angen i chi a'r partïon eraill fod yn bresennol er mwyn i'r Arolygydd gael mynediad i safle'r gwrych a'r eiddo yr effeithir arno. Er enghraifft, pan na fydd modd cael mynediad o'r ochr/cefn efallai y bydd angen i'r Arolygydd fynd drwy gartref rhywun er mwyn cyrraedd gwrych a leolir mewn gardd gefn.

Yn yr amgylchiadau hyn, byddai pob parti yn yr apêl yn mynd gyda'r Arolygydd fel arfer, sy'n cynnwys yr achwynydd a pherchennog neu ddeiliad y tir lle y lleolir y gwrych yn ogystal â'r cyngor.

Mae gan yr Arolygydd yr un hawliau i fynd ar y tir lle y lleolir y gwrych â swyddog y cyngor a ymdriniodd â'r gŵyn wreiddiol. Mae hefyd yn ofynnol iddo gyflawni'r un rhwymedigaethau o ran rhoi rhybudd ymlaen llaw. Gan na chaniateir trafod yr apêl ar y safle, nid oes angen i'r cyngor gael ei gynrychioli gan y swyddog a ymdriniodd â'r penderfyniad gwreiddiol. Felly, nid oes angen gohirio ymweliadau â safleoedd am nad yw'r unigolyn hwn ar gael.

### (b). Y Weithdrefn ar gyfer Gwrandawriad

Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn trefnu i Arolygydd gynnal gwrandawriad ar yr apêl. Caiff unrhyw wrandawriadau eu cynnal yn unol â Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Apelau) (Cymru) 2004.

Y cyngor fydd yn trefnu lleoliad y gwrandawriad fel arfer. Dylai pawb sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol gael y cyfle i gymryd rhan.

Mae'n bwysig bod yr Arolygydd yn gwbl ymwybodol o'r materion a'r dadleuon perthnasol cyn i'r gwrandawriad gychwyn fel y gall arwain y drafodaeth yn briodol. Felly, mae'r gweithdrefnau yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif bartïon gyflwyno datganiadau, dogfennau cefndir a sylwadau eraill o fewn y terfynau amser a nodwyd cyn y gwrandawriad.

### *Dyddiad dechrau*

Pan fyddwn wedi cael ffurflen apêl wedi'i chwblhau'n gywir, yr holl ddogfennau perthnasol, a'r wybodaeth ragarweiniol fel y nodwyd yn flaenorol byddwn yn eich hysbysu chi a'r partïon o ddyddiad dechrau ffurfiol yr apêl. Penderfynir ar yr holl gamau gweithdrefnol eraill o'r dyddiad hwn. Byddwn yn eich hysbysu chi a'r partïon o gyfeirnod yr apêl a'r weithdrefn i'w dilyn. Byddwch hefyd yn cael manylion cyswllt y swyddog a fydd yn ymdrin â'r achos a dylid anfon yr holl ohebiaeth ato.

### **Rhaid i CHI wneud y canlynol:**

O fewn **pythefnos** i'r dyddiad dechrau dylech gael holiadur wedi'i gwblhau oddi wrth y cyngor yn uniongyrchol. Os na fyddwch wedi cael copi, dylech gysylltu â'r cyngor yn uniongyrchol a gofyn am gopi.

O fewn **naw wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i chi sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw gynrychioliadau pellach, sy'n ychwanegu at y ffurflen apêl wedi'i chwblhau a dogfennau cefndir a ddarparwyd gennych eisoes.

Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfyn amser hwn byddwn yn anfon copi o'ch cynrychioliadau at y prif bartïon eraill, ac yn anfon copi o ddatganiadau eraill y prif bartïon ynghyd ag unrhyw gynrychioliadau pellach a gafwyd gan bobl â diddordeb atoch chi.

O fewn **naw wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i chi sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw sylwadau terfynol yr hoffech eu gwneud ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gan y prif bartïon eraill yn yr apêl, ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a anfonwyd gan bobl â diddordeb.

Rhaid i'R CYNGOR wneud y canlynol

- hysbysu pobl â diddordeb yn yr apêl (hynny yw, pawb - ar wahân i'r prif bartïon - a wnaeth cynrychioliadau i'r Cyngor am y penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef). Rhaid iddo gynnwys y canlynol:
  - enw'r apelydd a chyfeiriad y tir lle y lleolir y gwrych;
  - manylion yr apêl a'r rhesymau dros ei gwneud;
  - cadarnhau'r weithdrefn a ddefnyddir i benderfynu'r apêl (cynrychioliadau ysgrifenedig neu wrandawriad);
  - datganiad yn nodi y caiff yr holl gynrychioliadau a gyflwynwyd mewn perthynas â phenderfyniad gwreiddiol y Cyngor eu hanfon i'r Arolygiaeth Gynllunio ac y caiff copïau eu hanfon at y prif bartïon eraill yn yr apêl;
  - datganiad yn nodi y caiff cynrychioliadau o'r fath eu hystyried wrth benderfynu'r apêl oni fydd yr unigolyn â'u gwnaeth yn cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio o fewn [chwe] wythnos i'r dyddiad dechrau i'w hysbysu ei fod am eu tynnu yn ôl;
  - gwahoddiad i gyflwyno cynrychioliadau ychwanegol i'r Arolygiaeth Gynllunio [chwe] wythnos ar ôl y dyddiad dechrau fan bellaf, a fydd yn anfon copïau at y prif bartïon yn yr apêl;
  - manylion cyswllt yr Arolygiaeth Gynllunio, gan gynnwys unrhyw gyfeirnod ar gyfer yr apêl i'w ddyfynnu mewn gohebiaeth;
  - cyflwyno'r holiadur wedi'i gwblhau, ynghyd â phapurau cefndir sy'n berthnasol i'r apêl, i ni o fewn pythefnos ac anfon copïau atoch chi a'r prif bartïon eraill;
  - nodi a yw'n bwriadu cyflwyno unrhyw ddatganiad pellach i egluro'r rhesymau dros ei benderfyniad.

O fewn **chwe wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i'r Cyngor sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw ddatganiad pellach, sy'n ychwanegu at yr holiadur a'r papurau cefndir. Byddwn yn anfon copïau atoch chi a'r prif bartïon eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

O fewn **naw wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i'r Cyngor sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw sylwadau terfynol ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gennych a'r prif bartïon eraill ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a anfonwyd gan bobl â diddordeb.

**Rhaid i bawb arall sy'n barti yn yr apêl (ar wahân i'r apelydd a'r Cyngor) wneud y canlynol**

O fewn chwe wythnos i'r dyddiad dechrau, rhaid i'r prif bartïon eraill yn yr apêl (hynny yw, pawb - ar wahân i chi - sy'n achwynydd neu'n berchen ar y tir lle y lleolir y gwrych neu'n ddeiliad y tir hwnnw) sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw gynrychioliadau sy'n ychwanegu at y dogfennau a ddarparwyd gennych chi a'r cyngor eisoes. Byddwn yn anfon copi atoch chi a'r partïon eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfyn amser.

O fewn **naw wythnos** i'r dyddiad dechrau, rhaid i'r partïon sicrhau ein bod yn cael:

- unrhyw sylwadau terfynol ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gan y partïon eraill yn yr apêl, ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a wnaed gan bobl â diddordeb.

## Rôl pobl â diddordeb

Caiff unrhyw un a wnaeth gynrychioliadau am y gŵyn sy'n destun yr apêl ei hysbysu o'r apêl gan y cyngor. Caiff ei sylwadau gwreiddiol eu hanfon atom yn awtomatig gan y cyngor a byddwn yn anfon copi ohonynt atoch chi a'r partïon eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfyn amser.

Dylai ein hysbysu os nad yw am i'w sylwadau gwreiddiol gael eu hystyried wrth benderfynu'r apêl. Fel arall, gall gyflwyno cynrychioliadau pellach am yr apêl i ni. Rhaid i ni gael ei sylwadau o fewn **chwe wythnos** i'r dyddiad dechrau.

Byddwn yn anfon copi o'r cynrychioliadau pellach hyn atoch chi a'r partïon eraill a rhaid i ni gael sylwadau o fewn **naw wythnos** i'r dyddiad dechrau.

## Beth sy'n digwydd yn y Gwrandawriad

Byddwn yn rhoi o leiaf **bedair wythnos** o rybudd i chi a'r partïon eraill o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad. Mae'r cyngor yn gyfrifol am hysbysu pobl â diddordeb o'r trefniadau ar gyfer y gwrandawriad. Cewch chi a'r partïon eraill fod yn bresennol a chymryd rhan yn y gwrandawriad, naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd. Fodd bynnag, gall y gwrandawriad fynd rhagddo heb i un neu fwy o'r prif bartïon fod yn bresennol. Caiff pobl eraill â diddordeb hefyd fod yn bresennol. Cânt gymryd rhan yn y drafodaeth yn ôl disgrisiwn yr Arolygydd.

Caiff y weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawriad ei phenderfynu gan yr Arolygydd penodedig. Fodd bynnag, fel arfer bydd yr Arolygydd yn dechrau drwy grynhoi ei ddealltwriaeth o'r achos ac amlinellu'r prif faterion yn ei farn ef.

Dylai'r drafodaeth ganolbwyntio ar yr hyn sydd dan sylw a dylai gael ei chynnal mewn ffordd drefnus. Gellir diystyru dadl ailadroddus ac, os bydd rhywun yn ymddwyn mewn ffordd afreolus, gellir gohirio'r gwrandawriad am gyfnod i ymbwyllo. Yn ystod y gwrandawriad efallai y bydd yr Arolygydd yn dod i'r casgliad y byddai modd datrys rhai materion yn fwy boddhaol drwy symud y gwrandawriad i'r safle, gan barhau i gynnal y trafodaethau yno. Bydd pawb yn y gwrandawriad yn cael y cyfle i fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad â'r safle.

## Yr ymweliad â'r safle

Bydd yr Arolygydd am ymweld â safle'r gwrych ar ryw adeg yn ystod ei ystyriaethau, yn syth ar ôl i'r gwrandawriad gau fel arfer. Gellir parhau i drafod ar y safle yn ôl disgrisiwn yr Canllawiau ar wrychoedd uchel i apelyddion PEDW 04.2022

Arolygydd. Ni ddylai un parti yn yr apêl fod yn bresennol yn ystod ymweliad yr Arolygydd ar unrhyw adeg heb i'r lleill gael y cyfle i fod yn bresennol hefyd, sy'n cynnwys yr achwynydd a pherchennog neu ddeiliad y tir lle y lleolir y gwrych yn ogystal â'r cyngor.

### **11. Pwy gaiff wybod am y penderfyniad?**

Byddwn yn hysbysu'r Cyngor, yr achwynydd a pherchennog/deiliad y tir lle y lleolir y gwrych o benderfyniad yr Arolygydd cyn gynted â phosibl. Yn y dyfodol efallai y byddwn hefyd yn rhoi'r penderfyniad/hysbysiad adfer ar ein gwefan.

### **12. Y penderfyniad**

Wrth benderfynu'r apêl gall yr Arolygydd ei chaniatáu, yn llawn neu'n rhannol, neu ei gwrthod. Pan benderfynir caniatáu'r apêl gall yr Arolygydd ddileu'r hysbysiad adfer gwreiddiol a ddyroddwyd i'r Cyngor. Fel arall, gall yr Arolygydd amrywio gofynion yr hysbysiad adfer, neu os na fydd y Cyngor wedi dyroddi hysbysiad adfer, dyroddi hysbysiad adfer ar ran y Cyngor hwnnw. Efallai y bydd yr Arolygydd hefyd yn cywiro unrhyw ddiffyg neu wall yn yr hysbysiad gwreiddiol. Os bydd penderfyniad yr Arolygydd yn ymwneud â hysbysiad adfer sy'n bodoli eisoes gall ddiwygio'r dyddiad gweithredu gwreiddiol (y dyddiad y daw i rym).

Mae penderfyniad yr Arolygydd yn gyfreithiol rwymol ar y tir dan sylw a phwy bynnag yw ei berchennog neu ei ddeiliad. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig perchennog neu ddeiliad y tir pan wneir y penderfyniad neu y dyroddir yr hysbysiad, ond hefyd unrhyw olynwyr. Os bydd yr Arolygydd yn diwygio hysbysiad adfer neu'n dyroddi un newydd, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod perchennog neu ddeiliad y tir lle y lleolir y gwrych yn cydymffurfio â thelerau'r hysbysiad.

### **13. Sut y gallaf gwyno os na fyddaf yn fodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'm hapêl?**

Os bydd gennych unrhyw gwynion am y penderfyniad neu'r ffordd rydym wedi ymdrin â'ch apêl, ysgrifennwch at:

Y Swyddog Cwynion  
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru  
2il Lawr Gorllewin  
Adeilad y Goron,  
Parc Cathays, Caerdydd,  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 060 4400  
Ebst: [PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru](mailto:PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru)

Bydd y swyddog Cwynion yn eich ateb, neu bydd yn gofyn i rywun arall o fewn PEDW ateb os oes ganddo wybodaeth arbenigol am y materion dan sylw. Bydd yn ymchwilio i'ch cwyn a gallwch ddisgwyl cael ateb llawn o fewn tair wythnos. Fodd bynnag, ni all yr PEDW ailystyried eich apêl os bydd y penderfyniad wedi'i wneud eisoes oni fydd yn cael ei wyrdroi yn yr Uchel Lys (*gweler adran 14 isod*).

### **14. Sut y gallaf herio'r penderfyniad?**

Nid oes hawl i apelio ar wahân yn erbyn penderfyniad Arolygydd a benodwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru. Yr unig ffordd o wyrdroi ac ailystyried penderfyniad apêl yw drwy wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol. Bwriedir i adolygiad o'r fath sicrhau bod y pwerau a nodir yn y Ddeddf a'r Rheoliadau wedi'u harfer yn gywir. Mae'n dilyn mai dim ond i herio'r ffordd y mae'r Arolygydd wedi dehongli'r gyfraith i wneud y penderfyniad y gellir defnyddio adolygiad barnwrol. Nid oes a wnelo â chryfder eich dadleuon a rhinweddau'r penderfyniad apêl.

Mae angen cael caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol. Dim ond pan fydd yr ymgeisydd yn gallu bodloni'r llys bod ganddo ddigon o ddiddordeb yn y mater ac achos rhesymol i'w gyflwyno y'i caniateir. Cynghorir unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais i'r llys i gael cyngor cyfreithiol

## **15. Yr Arolygiaeth Gynllunio - pwy ydym ni a'r hyn a wnawn**

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, neu PEDW, yng Nghymru yn un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ei thîm gweithdrefnau yn ymdrin â phob apêl o dan adran 71 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Lleolir y tîm yn:

2il Lawr Gorllewin  
Adeilad y Goron,  
Parc Cathays, Caerdydd,  
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 060 4400

Ebost: [PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru](mailto:PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru)

Mae'r tîm yn gyfrifol am weinyddu achosion a sicrhau bod apeliadau yn cael eu prosesu mewn ffordd amserol. Bydd hefyd yn ateb ymholiadau cyffredinol am weithdrefnau apelio a hynt achosion penodol.

Am wybodaeth fanylach am PEDW ewch i wefan yr Llywodraeth Cymru yn:

[Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru | LLYW.CYMRU](#).

## **16. Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol**

Os byddwch yn cymryd rhan mewn apêl, bydd y math o wybodaeth bersonol a geir yn eich sylwadau yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt fel arfer ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn penderfynu ei rhoi.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu'r apêl, ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eich sylwadau ysgrifenedig ar gael i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phartïon statudol eraill.

Rydym yn cyhoeddi dogfennau apêl a sylwadau, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau, ar y Porth Gwaith Achos Cynllunio. Caiff rhifau ffôn, rhifau ffacs a chyfeiriadau e-bost eu dileu cyn cyhoeddi. Rydym hefyd yn cyhoeddi penderfyniad yr arolygydd.

Mae'r arweiniad yn y daflen hon yn esbonio'r broses apelio'n fanylach ac fe'ch cynghorir i ddarllen y daflen hon cyn rhoi unrhyw sylwadau. Am ragor o fanylion, gweler ein datganiad preifatrwydd:

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'n defnydd o wybodaeth bersonol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

## **FURTHER INFORMATION**

Mae rhagor o wybodaeth an ein polisi preifatrwydd ar y Porth Gwaith Achos Cynllunio yn <https://planningcasework.service.gov.wales/cy> neu ar gais. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein polisi, neu os hoffech ofyn am eich data personol, yna cysylltwch â ni drwy'r cyfeiriad isod:

### **Cysylltu â ni**

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru  
2il Lawr Gorllewin  
Adeilad y Goron,  
Parc Cathays, Caerdydd,  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 060 4400  
Ebst: PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru